# EINION ap GWALCHMAI (fl. 1203-23), bardd

**Enw:** Einion ap Gwalchmai
**Priod:** Angharad ferch Ednyfed Fychan
**Rhiant:** Gwalchmai ap Meilyr
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Ceir darn awdl o'i waith i Lywelyn ab Iorwerth, lle sonnir am wrhydri'r tywysog hwnnw yn erbyn Saeson, ac a genid felly wedi tro'r ganrif yn ôl pob tebyg. Cyfansoddodd hefyd awdl-farwnad firain i Nest ferch Hywel, o Dywyn, Meirionnydd, ac y mae tair awdl i Dduw o'i waith i'w cael. Yn un o'r rhain sonia am ei fwriad i fynd ar bererindod dros fynydd Mynnau (yr Alpau) i wlad Canaan. A barnu wrth ei waith bu iddo ran amlwg ym mywyd llys, ond 'gwedi gwasanaeth y penaetheu' y mae'n teimlo mai addfwynach yw moli Duw, a 'gwyn eu byd fyneich fewn eglwyseu.' Dymuna ddiweddu ei ddyddiau yn Enlli, ac y mae awgrym mewn cerdd dduwiol arall o'i waith iddo droi'n fynach, oblegid dywed: 'Cadwn freint deweint, canys defawd .... Na chysgwn, canwn canon arawd.' Y mae ei ganu crefyddol, fel ei farwnad i Nest, yn felys ac yn afaelgar, ac y mae'n amlwg ei fod yn ei ddydd yn fardd poblogaidd, a dywed Gwilym Ddu o Arfon amdano (*The Myvyrian Archaiology of Wales*, 277B): 'A ganai, ffynnai fel berw ffynnawn.' Prawf arall o'i boblogrwydd yw iddo dyfu'n gymeriad llên gwerin. Ceir chwedl amdano yn neidio 50 troedfedd yn Abernodwydd yng ngwydd ei gariad pan oedd yn wr ifanc, amdano'n mynd i bererindota, ac yn aros oddi cartref am 21 o flynyddoedd, yna'n dychwelyd, a'i wraig (sef, yn ôl y chwedl, a'r englynion ynddi, Angharad, ferch Ednyfed Fychan) newydd briodi gwr arall ond yn ei adnabod wrth iddo ganu'r delyn a dangos hanner y fodrwy briodas a gadwasai, a chwedl arall am y ' brawd ' Gwryd yn ei iacháu o anhwyldeb a fuasai arno saith mlynedd. Mewn englyn arall sydd ynglyn â'r ail chwedl dywedir yn bendant mai mab Gwalchmai ap Meilyr ydoedd, ac y mae'n dra thebyg fod hynny yn wir.

## Awdur

**David Myrddin Lloyd**, (1909 - 1981)

## Ffynonellau


Archifau LlGC: NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd, 14b-19a

*The Myvyrian archaiology of Wales* (Denbigh 1870), 230-2

*The Poetry in the Red Book of Hergest* (Llanbedrog 1911), 1177-81

Angharad Llwyd, *A History of the Island of Mona, or Anglesey including an account of its natural productions, Druidical antiquities, lives of eminent men, the customs of the court of the ancient welsh princes, etc. :being the prize essay to which was adjudged the first premium at the Royal Beaumaris Eisteddfod, held in the month of August, 1832* (Rhuthin 1833)

*NLW MSS*, 1553, 542, a llawysgrifau eraill yn Ll.G.C.

T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk Custom* (Llundain 1930)

John Rhys, *Celtic Folklore, Welsh and Manx, a review of Annals of the Magic Isle* (Rhydychen 1901)

*Cambrian Register* (1795–1818), iii, 1800

J. Lloyd-Jones, *The Court Poets of the Welsh Princes*


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Einion ap Gwalchmai

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3399878


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu